**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD: CYFARFOD 16 MEHEFIN YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, BAE CAERDYDD**

## DATBLYGU ECONOMAIDD YNG NGHYMRU

### Diben

1. I roi trosolwg o weithgarwch y sector cyhoeddus ym maes datblygu economaidd yng Nghymru, y prif bynciau a’r rhaglenni.

### Cefndir

2. Gerbron y pwyllgor y mae’r papur "Golwg Gyffredinol ar Economi Cymru", (EDC-01-99-P1W) sy’n rhoi dadansoddiad cyffredinol o gyflwr presennol economi Cymru. Ger ei fron hefyd y mae papur ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Gorffennaf y llynedd agenda economaidd newydd i Gymru, "Ffordd i Ffyniant". Roedd hon yn disgrifio’r pynciau allweddol ac yn gosod fframwaith ar gyfer llunio rhaglenni datblygu economaidd.
3. Mae’r papur hwn yn disgrifio rhaglenni datblygu economaidd y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru. Mae rhaglenni datblygu economaidd yng Nghymru yn dal i gael eu cynnal yng nghyd-destun fframwaith polisi macro-economaidd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

### Y Prif Bynciau

4. Dros y blynyddoedd mae economi Cymru wedi dioddef sawl ergyd drom o ran colli swyddi yn y diwydiannau glo a dur ac ym mhrif feysydd eraill yr economi. Er gwaethaf hynny, mae Cymru fwy na heb wedi dal ei thir o’i chymharu â gweddill y Deyrnas Unedig o ryw ychydig. Prif bwyslais y polisi datblygu rhanbarthol fu sicrhau mewnfuddsoddi i Gymru i greu swyddi newydd yn lle’r swyddi a gollwyd yn niwydiannau craidd Cymru. Hyn sydd wedi creu strwythur diwydiannol presennol anarferol Cymru sy’n ddibynnol iawn ar weithgynhyrchu (y gellid ond ei gymharu â Chanolbarth Lloegr). Mae gweithgynhyrchu wedi cael amser anodd dros y ddwy flynedd diwethaf, er bod arwyddion fod pethau’n dechrau gwella. Ar y llaw arall, mae’r sector gwasanaethu, sydd wastad wedi bod yn wan yng Nghymru, wedi bod yn gwneud yn well ac ym 1998 crewyd 20,000 o swyddi newydd net yng Nghymru.

5. Mae'r dadansoddiad economaidd yn dangos mai'r prif broblemau yw:

- Incwm isel Mae'r ffigurau diweddaraf (1997) yn dangos mai dim ond 82% o GDP y Deyrnas Unedig yw GDP yng Nghymru. Dyma rai o'r prif resymau dros berfformiad gwael Cymru:
- lefelau isel o wasanaethau busnes sydd â gwerth ychwanegol uchel;
- lefelau isel o ymchwil a datblygu;
- lefelau isel o fusnesau newydd; a
- lefelau isel o fedrau ymhlith y gweithlu.
- lefelau uchel o anweithgarwch economaidd, yn enwedig ymysg dynion dros 50 oed, problem sydd ar ei gwaethaf yn y Cymoedd;

- Gwahaniaethau rhwng incwm y dwyrain ac incwm y gorllewin. Yn ôl y ffigurau diweddaraf (1996) roedd GDP y pen yn ardal NUTSII Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 71% o gyfartaledd yr UE – dyna'r rheswm dros ei ddynodi'n ardal Amcan 1 at ddibenion Cronfeydd Strwythurol Ewrop. Ar y llaw arall, yn Nwyrain Cymru, yr oedd y GDP y pen yn 102% o gyfartaledd yr EU.
- Diweithdra Ar wahân i gyfnod byr yn nechrau'r 1990au, mae lefelau diweithdra yng Nghymru wedi bod yn uwch na chyfartaledd y DU.

1. Prif flaenoriaethau'r polisi datblygu economaidd yw datrys y problemau hyn. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy, sy'n cwmpasu amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.

**Y PRIF GYRFF**

2. Dyma'r prif gyrff sy'n darparu cymorth diwydiannol a busnes, yn unigol ac mewn partneriaeth:

Awdurdod Datblygu Cymru Cynhaliodd y Llywodraeth adolygiad o'r cyrff sy'n ymwneud â datblygu economaidd, ac o ganlyniad unwyd Awdurdod Tir Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Datblygu Cymru,gan greu corff unedig ym ym mis Hydref 1998. Yr Awdurdod sy'n arwain y gwaith o hybu Cymru fel lle i fewnfuddsoddi ynddo ac i ehangu busnesau lleol; dod â thir ynghyd ac adfer tir a datblygu ffatrïoedd; gwella gallu cwmnïau bach i ddod o hyd i gyllid; a mathau eraill o gymorth i fusnesau; ac i gynyddu cyfraddau dechrau, twf a pharhad cwmnïau bach a chanolig eu maint.

Bwrdd Croeso Cymru Yn ôl amcangyfrif y Bwrdd, mae'r diwydiant twristiaeth yn rhoi gwaith i ryw 90,000 o bobl. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynorthwyo'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru drwy ei hyrwyddo ar draws y byd a thrwy ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth yng Nghymru, a gyflwynir gerbron y Pwyllgor hwn yn ddiweddarach eleni.

Mae'r Awdurdodau Lleol yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu economaidd yn eu hardaloedd trwy gyfrwng amrywiaeth eang o raglenni. Adenillir cyfran uchel o'u gwariant gros trwy'r incwm sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau i fusnesau. Ym 1997/98 yr oedd eu gwariant gros dros £39.2 miliwn (£24.4 miliwn net). Yr awdurdodau lleol, ynghyd â'r Cynghorau Hyfforddi a Menter, yr Asiantaethau Menter Lleol yr Awdurdod Datblygu a'r Swyddfa Gymreig, yw prif bartneriaid Cyswllt Busnes.

Y Swyddfa Gymreig (Y Cynulliad Cenedlaethol o fis Gorffennaf ymlaen) Mae'r Swyddfa Gymreig yn gyfrifol am weinyddu nifer o raglenni cymorth i fusnesau. Ymhlith y rhain mae'r rhaglen Cymorth Rhanbarthol Dewisol (CRhD), rhaglen o wasanaethau masnachu dramor ynghyd â sawl rhaglen sy'n cynorthwyo datblygiad cynnyrch a gwasanaethau newydd a restrir isod o dan Trosglwyddo Technoleg.

Cwmnïau preifat yw'r Cwmnïau Hyfforddi a Menter (CHMau) o dan arweiniad cyflogwyr. Eu prif nod yw meithrin twf economaidd ac i gyfrannu at adfywio'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Maent yn annog menter yn lleol, gan roi help ymarferol i gyflogwyr sydd am wella eu cynlluniau hyfforddiant a darparu cysylltiadau adeiladol rhwng cyflogwyr a byd addysg. Yn ogystal, mae'r CHMau yn cynhyrchu adnoddau fel y mynnant, a gaiff eu defnyddio mewn modd hyblyg i ymateb i anghenion lleol.

Y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed sy'n gyfrifol am y CHMau.

Cyswllt Busnes yw'r "siop un stop" ar gyfer helpu busnesau bach. Cafodd ei atgyfnerthu'n ddiweddar a phenodwyd Tîm Rheoli newydd ar gyfer Cymru gyfan ar 30 Mawrth 1999.

**Prif Weithgarwch**

3. Ardaloedd a gynorthwyir Y prif raglenni yr heffeithir arnynt gan ddynodiadau Ardaloedd a Gynorthwyir yw'r CRhD a nifer o raglenni'r Awdurdod Datblygu, gan gynnwys rhaglen yr Awdurdod ar gyfer datblygu eiddo.
4. Mae Ardaloedd a Gynorthwyir Prydain Fawr yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Oherwydd ei GDP y pen bydd ardal NUTSII Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn derbyn cymorth yn otomatig o dan amod 92(3)(a) Cytundeb Rhufain. Bydd hyn golygu y caiff y lefelau uchaf o gymorth rhanbarthol eu talu i gwmnïau sy'n buddsoddi yn yr ardal. Disgwylir i fap drafft cyflawn o'r Ardaloedd a Gynorthwyir gael ei anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w gymeradwyo yn ystod yr haf.

5. Amcan 2 Mae'r papur sydd gerbron y pwyllgor ar gronfeydd Strwythurol Ewrop (EDC-01-99-P3W) yn cwmpasu'r gwaith sydd ar droed ar hyn bryd mewn perthynas â map Amcan 2.
6. Bydd masnachu dramor hefyd yn chwarae rôl bwysig iawn wrth wella GDP. Mae marchnadoedd allforio yn ffordd pwysig iawn i helpu cwmnïau bach dyfu a chynyddu eu cynhyrchiant. Fodd bynnag, efallai nad oes gan gwmnïau bach y wybodaeth a'r adnoddau rheoli angenrheidiol ar gyfer allforio'n effeithiol. Ar hyn o bryd mae trefniadau newydd i helpu ymdrechion busnesau bach yn cael eu rhoi ar waith.
7. Entreupreneuriaeth Gofynnwyd i'r Awdurdod Datblygu lunio Cynllun Gweithredu ar Entreupreneuriaeth sydd wedi'i gynllunio i gynyddu nifer y busnesau sy'n dechrau ac i sicrhau eu twf a'u parhad.
8. Trosglwyddo technoleg Nod Cynllun Technoleg Rhanbarthol Cymru yw gwella'r modd y mae byd masnach yn defnyddio technoleg. Caiff ei ddatblygu ar sail partneriaeth a'i dywys gan gynrychiolwyr o Gyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, yr Awdurdod Datblygu, Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, yr awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill.
9. Mae nifer o raglenni penodol i wella'r modd y defnyddir y technolegau newydd hyn ar waith, neu ar fin dechrau. Ymhlith y rhain mae:

   "SMART Cymru" (cymorth i fentrau)

   Cymru Prosper Wales (lleoliadau gwaith i fyfyrwyr);

   The Teaching Company / College Business Partnership Schemes (trosglwyddo technoleg)

   "Know-how Wales" (gwella cysylltiadau rhwng cwmnïau a cholegau);

   Wales Information Society Initiative (technoleg gwybodaeth/cyfathrebu)

10. Nod yr ymgyrch Busnes a'r Amgylchedd yw codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ymhlith busnesau bach a chanolig a'u perswadio i wella'u perfformiad amgylcheddol i sicrhau buddiannau i'w busnesau trwy gyfrwng cymorth ymarferol.
11. Bydd Mewnfuddsoddi yn dal i fod yn agwedd bwysig o'r strategaeth ddatblygu economaidd. Mae'r digwyddiadau diweddar yn Ne Ddwyrain Asia wedi ein hatgoffa bod y llif mewnfuddsoddi hefyd yn teimlo effeithiau ffactorau economaidd bydeang sydd ymhell y tu hwnt i reolaeth leol.
12. Y polisi cyfredol yw denu amrywiaeth o brojectau ar draws y sectorau i helpu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i ddenu projectau ac i gynnal mwy o swyddi uwch dechnoleg ac uwch reoli.
13. Ynni Un o'r datblygiadau pwysig diweddaraf yn y maes hwn yw Parc Ynni Baglan, sef cynllun blaengar i godi pwerdy nwy 500MW wedi'i gysylltu â chynllun gwresogi

diwydiannau domestig lleol i ddarparu gwres a pher i denantiaid y parc. Mae’r Adran Fasnach a Diwydiant ar hyn o bryd yn bwrw ymlaen â’r trefniadau ymgeisio yn dilyn penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Fasnach a Diwydiant i ganiatáu’r cais. Mae economi Cymru, o gofio’i chefndir o ddiwydiant trwm yn defnyddio llawer o ynni ac yn wynebu pwysau rhyngwladol trwm ee newidiadau yn yr hinsawdd, ansawdd yr aer, ac ati.

14. Telathrebu Mae gan dechnoleg telathrebu’r potensial i wneud cyfraniad mawr i ddatblygu economïau ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol Cymru. Mae wedi chwarae rhan bwysig i alluogi Cymru i ddatblygu neu ddenu cwmnïau yn y sector gwasanaethu busnes, a bydd yn parhau i fod yn bwysig, er enghraifft, yng ngwaith yr Awdurdod Datblygu i gael y canolfannau galw yng Nghymru i wneud y gorau o’u potensial i economi Cymru.
15. Economi gymdeithasol Mae gan yr economi gymdeithasol y potensial i wneud cyfraniad sylweddol i ddatblygu’r economi, er na roddwyd digon o bwyslais ar hyn yn y gorffennol. Gall chwarae rôl bwysig o ran hybu cyfleoedd cyfartal ymhlith amrywiaeth eang o grwpiau tan anfantais drwy fod yn garreg gamu i’r grwpiau hynny i economi’r brif ffrwd. Mae yna botensial iddi fynd i’r afael ag anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ar draws y gymuned gyfan. Er hynny, bydd gallu’r mudiadau hyn i weithredu fel busnesau yn bwysig er mwyn penderfynu i ba raddau y bydd y cymunedau y maent yn rhan ohonynt yn elwa o’u gweithgareddau. Bydd Rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn debygol o chwarae rhan bwysig i ddatblygu’r sector hwn.
16. Medrau Mae byd busnes a’r Llywodraeth yn ystyried mai gwella medrau’r gweithlu yw un o’u tasgau pwysicaf. Bwriwyd ymlaen â phroject blaengar a fydd yn rhagweld anghenion yr economi am fedrau – "Dyfodol Sgiliau Cymru". Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Chwefror. Mae cynllun gweithredu’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd adroddiad y Grp Gweithredu ar Gyflogaeth a Hyfforddiant, sy’n gwneud argymhellion ar gyfer addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed ym mis Mawrth ac mae ganddo gyfraniad pwysig i’w wneud yn y maes.
17. Mae Dyfodol Sgiliau Cymru wedi nodi bod gofal plant yn rhwystr mawr i bobl sydd am elwa ar gyfleoedd hyfforddi. Mae Strategaeth Gofal Plant Cenedlaethol Cymru wedi llunio ystod o bolisïau ar gyfer gwella gofal plant. Yn rhan o hyn, mae’r Gronfa Cyfleoedd Newydd (corff y Loteri) yn rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal plant ar ôl ysgol.
18. Y Fargen Newydd Mae Rhaglen ‘O Fudd-dâl i Waith’ y Llywodraeth, sy’n cynnwys y Fargen Newydd, yn mynd i’r afael â phroblemau pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir ac yn helpu i chwalu’r rhwystrau sy’n rhwystro pobl rhag gweithio. Mae pump prif ran i Raglen y Fargen Newydd. Sefydlwyd cynlluniau peilot i helpu pobl ag anableddau yn y Cymoedd dwyreiniol, a phobl dros 25 oed sydd wedi bod yn ddi-waith ers dros flwyddyn ledled Cymru i ddychwelyd i weithio. Mae’r Rhanbarthau Cyflogaeth yn darparu mesurau blaengar i helpu pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir i gael gwaith cynaliadwy. Y prif gorff sy’n ymwneud â’r Fargen Newydd yw’r Gwasanaeth

Cyflogi, er bod llawer o’r CHMau yn darparu cymorth hyfforddi.

**Gwariant: y prif raglenni**

| £’000 | 1999-2000<br>Cynlluniau | 2000-2001<br>Llinell Sylfaen | 2001-2002<br>Llinell Sylfaen |
|---|---|---|---|
| Awdurdod<br>Datblygu<br>Cymru | 131,452 | 131,452 | 130,802 |
| Cymorth Rhanbarthol Dewisol a Chymorth Busnes arall | 70,213 | 67,201 | 67,151 |
| Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd | 35,419 | 23,919 | 23,919 |
| Bwrdd Croeso Cymru | 15,436 | 15,436 | 15,436 |
| Cronfa Ffordd i Ffyniant | 0 | 10,000 | 30,000 |
| Cymorth i Fentrau drwy CHMau | 12,931 | 13,781 | 13,781 |
| CYFANSWM | 265,451 | 261,789 | 281,089 |

**ATODIAD A**

## CYMORTH I FUSNESAU CYMRU

### Y Cefndir

1. Mae nifer o gyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ar gyfer busnesau yng Nghymru. Yn y sector cyhoeddus, neu yn achos arian y sector cyhoeddus, y prif asiantaethau yw Awdurdod Datblygu Cymru ar ei newydd wedd, y Cynghorau Hyfforddiant a Menter, yr Asiantaethau Menter, yr Awdurdodau Lleol, Bwrdd Croeso Cymru a'r Swyddfa Gymreig. Dros y blynyddoedd datblygwyd strategaethau a rhaglenni craidd gwahanol gan y cyrff hyn, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

- Awdurdod Datblygu Cymru sy'n gyfrifol am hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer busnesau ac am gydlynu mewnfuddsoddiad. Ymhlith ei gyfrifoldebau hefyd y mae adfer tir, adnewyddu trefol a datblygu eiddo. At hynny, mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau ar gyfer busnesau mewn meysydd lle mae angen ei arbenigedd neu lle mae angen dull o weithredu ar lefel Cymru gyfan. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Ffynhonnell Cymru (sy'n hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau cyflenwi ymhlith cwmnïau Cymru); amryfal brojectau i hybu trosglwyddo technoleg, yn ogystal â chynlluniau i sicrhau bod mwy o arian ar gael ar gyfer busnesau. Bu'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar y cwmnïau canolog a mwy (sy'n cyflogi 25 neu fwy) er eu bod bellach yn cynnwys y gwasanaethau i fusnesau a ddarparwyd gynt gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig.

- Yn gyffredinol, cyflwynir gwasanaethau allweddol ar gyfer busnesau bach, gan gynnwys microfusnesau (y busnesau hynny sy'n cyflogi llai na 10) a busnesau sy'n cael eu sefydlu o'r newydd, yn lleol. Mae'r Asiantaethau Menter Lleol yn denu arian o amryfal ffynonellau, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, y sector preifat, a thrwy is-gontractau gan y Cynghorau Hyfforddiant a Menter er mwyn cyflwyno elfennau o'u rhaglen fenter.

- Bwrdd Croeso Cymru yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer datblygu a marchnata'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae'n cynnig ystod o gymorth i'r sector pwysig hwn – gan gynnwys gwasanaethau ymgynghorol, grantiau ar gyfer projectau datblygu a chymorth gydag ymchwil a marchnata.

- O dan gontract i’r Swyddfa Gymreig, mae’r Cynghorau Hyfforddiant a Menter yn rheoli ystod o gynlluniau i symbylu menter ac i gynorthwyo B’BACH’au i ddod yn fwy cystadleuol. Fel rheol, darperir y gweithgareddau hyn "yn y fan a’r lle" trwy gyfrwng contractau gydag asiantaethau menter a darparwyr eraill yn y sector preifat. Swyddogaeth y Cynghorau Hyfforddiant a Menter yw barnu beth yw anghenion lleol eu hardal, yn seiliedig ar farn eu byrddau (a’r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o’r gymuned fusnes leol sy’n rhoi eu gwasanaethau’n ddi-dâl).

- Mae awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn hyrwyddo datblygiad economaidd yn eu hardaloedd. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys cynnig grantiau a benthyciadau i fusnesau newydd a busnesau bach, a darparu gweithdai. Maent yn gweithio’n agos â’r asiantaethau menter i roi cymorth i fusnesau lleol.

- Yn ychwanegol at ei swyddogaeth o ran datblygu polisi economaidd a diwydiannol, mae’r Swyddfa Gymreig yn darparu nifer o raglenni ar gyfer busnesau, cynlluniau grant yn bennaf. Mae’r cynlluniau hyn yn cynnwys Cymorth Rhanbarthol Dewisol (i gynorthwyo projectau buddsoddi yn y Rhanbarthau Cymorth); ystod o wasanaethau masnachu tramor i helpu busnesau Cymru i allforio, ac o dan faner "SMART Cymru", grantiau i hybu arloesi.

## Cryfhau Cyswllt Busnes

1. Bu Cyswllt Busnes yn gymorth i wella’r modd y darperir gwasanaethau i fusnesau yng Nghymru, yn enwedig trwy drefnu bod yr ystod o gymorth sydd ar gael o fewn cyrraedd mwy hwylus, a thrwy gryfhau partneriaethau lleol rhwng y prif asiantaethau. Sefydlwyd Bwrdd Rheoli dan arweiniad pobl fusnes ym mis Mawrth 1999 – Cyswllt Busnes Cymru Cyf – yn benodol er mwyn rhoi gwell cyfeiriad strategol i’r rhwydwaith ac i helpu i wella ymhellach y modd y cydlynir cymorth i fusnesau yng Nghymru yn gyffredinol. Yn ychwanegol at hyn, ad-drefnwyd y consortia Cyswllt Busnes yn ddaearyddol (i gyfateb yn agosach â strwythur rhanbarthol newydd Awdurdod Datblygu Cymru a’r Cynghorau Hyfforddiant a Menter).
2. Cynrychiolir yr holl brif asiantaethau cymorth busnes ar y Bwrdd Rheoli ynghyd â chyrff sy’n cynrychioli buddiannau busnesau (Ffederasiwn y Busnesau Bach, Siambrau Masnach, etc) – a thrwy hynny darperir cymysgedd o ddarparwyr cymorth busnes a’r cwsmeriaid sy’n derbyn y cymorth hwnnw. Mae’r Bwrdd wedi cytuno ar gynllun strategol ar gyfer 1999/2000 ac mae camau ar y gweill i’w roi ar waith, gan ddefnyddio arian a ddyrannwyd gan yr Adran. Cyflwynir adroddiad (cyntaf) ar y datblygiadau hyd yn hyn gerbron y Cynulliad ym mis Gorffennaf.